

**AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU (AGIC):
ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH O OFAL, HANES IECHYD A DIGWYDDIADAU O
AMGYLCH LLADDIAD A GYFLAWNWYD YNG NGWESTY'R SIRHOWY ARMS,
ARGOED, COED-DUON YM MIS TACHWEDD 2014**

Bydd AGIC yn cynnal adolygiad annibynnol o unigolyn a oedd wedi cael cyswllt gyda gwasanaethau iechyd meddwl ym myrddau iechyd Aneurin Bevan, Abertawe Bro Morgannwg, a Caerdydd a'r Fro, cyn cyflawni lladdiad yng Ngwesty'r Sirhowy Arms, ar y 6ed o Dachwedd 2014.

Bydd yr adolygiad yn ymchwilio'r gofal, hanes iechyd a digwyddiadau o amgylch lladdiad a gyflawnwyd gan Mr N yn y Sirhowy Arms, Argoed, Coed-duon ar y 6ed o Dachwedd 2014.

Wrth gyflawni'r adolygiad hwn bydd AGIC yn:

- Ystyried y gofal a ddarparwyd i Mr N mor bell yn ôl â'i gyswllt gyntaf â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng ngogledd Cymru i roi dealltwriaeth a chefnidir i'r digwyddiad angheuol a ddigwyddodd ar 13 Mai 2011.
- Adolygu'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â gofal Mr N.
- Ystyried effeithiolrwydd y rhyngwynebau amlasiantaethol ac unrhyw rwstyr potensial i gydweithio partneriaeth effeithiol yn y gofal a ddarparwyd i Mr N.
- Nodi unrhyw newid neu newidiadau mewn ymddygiad a golwg Mr N a gwerthuso digonolrwydd unrhyw asesiadau risg cysylltiedig â chymau gweithredu a gymerwyd yn y cyfnod cyn y digwyddiad a ddigwyddodd ar y 6ed o Dachwedd 2014.
- Cynhyrchu adroddiad sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n amlinellu canfyddiadau perthnasol ac yn nodi argymhellion ar sut i wella.
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynllun(iau) gweithredu er mwyn sicrhau y dysgir gwersi o'r achos hwn¹
- Ystyried unrhyw faterion eraill a all fod yn berthnasol at ddibenion yr adolygiad

¹ Fel rhan o'r ymarfer hwn rhoddir ystyriaeth hefyd i hanes personol Mr N.

Bydd AGIC yn adrodd y canfyddiadau a lle'n addas yn gwneud argymhellion er mwyn sicrhau bod y gwelliannau sydd angen mewn perthynas â safon ac ansawdd yn cael eu gwneud.

Dull gweithio ac amserlen yr adolygiad

AGIC fydd yn rheoli'r adolygiad a bydd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu dogfennau a data
- Cynnal cyfweiliadau â'r staff a gyfrannodd at ofal Mr N
- Meincnodi arferion gweithrediadol a'r protocolau sy'n ymwneud â rheoli gofal a monitro Mr N
- Bydd AGIC yn arwain ar ymgysylltu â'r teuluoedd a effeithiwyd fel y bo'n briodol.

Bydd AGIC yn sefydlu tîm adolygu a fydd yn meddu ar yr arbenigedd angenrheidiol.

Bydd y tîm adolygu yn cynnwys cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd (NOMS), y tynnu ar eu harbenigedd â'u safbwynt mewn perthynas â gwasanaethau rheoli troseddwyd.

Bydd y tîm adolygu yn ymofyn arbenigaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) ar gyfer materion yn ymwneud â gofal cymdeithasol.

Bydd yr adolygiad yn dechrau yng Ngwanwyn 2015 a bydd yr adroddiad terfynol yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2016.